

CYNGOR BRO MACHNO

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Iau, 16eg o Fai 2019 yn Festri Salem am 7.00

Presennol: Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Dewi Jones, Colin Jones, Claire Roberts, Eryl Owain, Luned McFadden, Geraint Thomas, y Cynghorydd Sir, Wyn Ellis Jones a'r clerc, Elfed Williams.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Siân Anwyl Jones.

Cofnodion: Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 14eg o Fawrth 2019 fel rhai cywir, Colin Jones yn cynnig a Geraint Thomas yn eilio.

Materion yn codi:

Ffordd Hafod-y-rhedwydd: Mae bwriad gan Gyngor Sir Conwy i drwsio'r ffordd pan fydd cyllid ar gael ar gyfer y gwaith.

Car wedi ei barcio ger cyffordd: Cysylltodd y clerc â'r heddlu gan fod car sydd wedi ei barcio yn rheolaidd ger cyffordd ffordd Hafod-y-rhedwydd a ffordd Cwm yn achosi rhwystr i gerbydau trymion.

Mynwent Arwelfa: Diolchwyd i Geraint Thomas am osod arwydd yn dynodi'r fynwent.

Materion ffyrdd: Nodwyd nifer o faterion sydd angen sylw gan gynnwys cyflwr ffordd Glasgwm, coed yn tyfu drosodd i'r ffordd ar ffordd Cwm a choed yn tyfu o ochrau pont Llan a'r bont dros afon Conwy ger yr A5. Bydd y clerc yn trefnu cyfarfod efo'r Cyngor Sir.

Cyfyngiad cyflymdra: Dim gwybodaeth am y cais i gyflwyno gwaharddiad parcio 20 milltir yr awr ger yr ysgol. Penderfynwyd cysylltu eto â'r Cyngor Sir.

Mynwent yr Eglwys: Nid oedd prisiau ar gyfer gwaith tacluso wedi eu derbyn ond penderfynwyd bod angen symud ymlaen o ran diogelwch.

Swydd Clerc: Penderfynwyd hysbysebu yn *Yr Odyn* ar gyfer llenwi'r swydd cyn diwedd y flwyddyn. Diolchwyd i'r clerc am fod yn barod i barhau â'r gwaith tan hynny, neu i ymddiswyddo ynghynt os oedd ymgeisydd addas.

Ceisiadau Cynllunio:

Trafodwyd cais cynllunio ar addasiadau i 3 Church View. Penderfynwyd yn unfrydol nad oes gwrthwynebiad i'r cais.

Materion Ariannol:

Cyflwynwyd Mantolen Ariannol 2018-2019 a phenderfynwyd ei derbyn, Eifion Davies yn cynnig a Dewi Jones yn eilio.

Penderfynwyd cyfrannu £200 tuag at gostau Uned yn yr Eisteddfod Genedlaethol gan ysgolion dalgylch Ysgol Dyffryn Conwy.

Adroddwyd bod bron i £200 wedi ei dderbyn mewn taliadau defnyddio'r toiledau cyhoeddus.

Materion eraill:

Cynllun Melinau Gwynt Hiraethog: Cafwyd wybod gan y Cynghorydd Wyn Jones fod Ward Uwch Conwy, sy'n cynnwys Bro Machno, yn gymwys i wneud cais am arian o gronfa gymunedol y cynllun. Penderfynwyd gwahodd Eirian Jones i'r cyfarfod nesaf i gael mwy o wybodaeth.

Gwefan y Cyngor: Yn dilyn marwolaeth sydyn Tudor Jones o gwmni Cyfrifiaduron Cennin, penderfynwyd parhau efo'r cwmni sydd wedi cymryd y busnes drosodd.

Sgipiau Cymunedol: Penderfynwyd llogi dau sgip, un i Cwm ac un i Benmachno, ar ddyddiau Sadwrn os yn bosibl.